# **Bywyd Gwyllt Patagonia**, gan Twm Elias




Croeso i'r Gaiman

Pan gafodd Delyth y wraig a Rhiannon y ferch gynnig swyddi fel athrawon yn Ysgol Gymraeg y Gaiman am 4 mis (Mawrth - Gorffennaf 2022) ni ellid gwrthod. Ac am fod y ddau fach, Dylan 6 a Morgan 2 yn mynd hefyd, roedd angen taid i helpu efo'r gwarchod a dyletswyddau eraill.

Roedd yn daith hir a blinderus i Buenos Aires ac wedi aros nos yno roedd yn braf byrddio awyren arall ar gyfer y ddwy awr o daith i Drelew. Triawd byrlymus, Bili a Gladus Hughes a Rebeca White yn ein haros, â'u Cymraeg Patagonia yn fiwsig i'r glust. Yna hanner awr o daith dros y paith i'r Gaiman ac i Dŷ Camwy lle roeddem i aros. Criw arall yno i'n croesawu efo cacennau a danteithion o bob math, bu i'r gweddillion barhau inni am rai dyddiau. Cawsom ein rhyfeddu gan garedigrwydd a haelioni y Cymry yno a thrwy weddill y Wladfa dros y misoedd nesa a'u brwdfrydedd angerddol dros bopeth Cymraeg.

Buan y cawsom ein tynnu i mewn i'r gweithgarwch drwy gysylltiadau'r ysgol a'r capeli. Delyth yn ymuno â chôr y Gaiman a chyfrannu at wasanaethau'r Capel, a minnau yn rhoi sgyrsiau gyda'r nos mewn sawl lle ac i ddosbarthiadau Cymraeg cynradd ac uwchradd rhai o ysgolion yr ardal. Braf hefyd oedd cael ymuno â rhai o deithiau cerdded Trecwyr y Gaiman – tebyg iawn i Gymdeithas Edward Llwyd.

**Dod i gyfarwyddo â'r dref**

Er mai lleiafrif yw y Cymry yn y Gaiman, sy'n dref o 12-15,000 o bobl erbyn hyn, roedd y dylanwad Cymreig yn amlwg iawn ar enwau tai, strydoedd, busnesau ac adeiladau cyhoeddus. Mae clamp o ddraig goch fawr fetel yn y parc ynghanol y dref, ac enw'r clwb rygbi yw Clwb y Ddraig Goch.

Mae cryn dipyn o goed a llwyni drwy'r dref ac ar ochrau'r afon Camwy sy'n ymlwybro drwy ei chanol. Roedd amrywiaeth dda o adar yma yn cynnwys y brenin ar y cyfan, y cantor aeliog *(Mimus saturninus)*, sydd â chân hynod o gyfoethog ac amrywiol. Mae'n ddynwaredwr o fri, ond er imi chwibannu nodau, ac iddo yntau edrych arnaf a gwrando'n astud â'i ben ar osgo, wnaeth o ddim ymateb. Mae'n rhaid fy mod yn chwibannwr go druenus.



Y cantor aeliog


Un arall â chân hyfryd oedd y cardinal cribgoch *(Paroaria coronata)*, aderyn bywiog hyfryd a welid yn aml ger y tŷ. Roeddwn yn falch hefyd o weld y pobydd coch neu'r 'hornero' *(Furnarius rufus)*. Hwn yw aderyn cenedlaethol yr Ariannin, a'r hyn sy'n arbennig amdano yw ei nyth o glai ar ffurf cragen malwen. Mae ei enwau – y pobydd, hornero a *Furnarius* oll yn cyfeirio at ffurf ei nyth, sydd mor debyg i'r popdai bara traddodiadol welir ger sawl ffermdy yma.



Y cardinal cribgoch yn bwydo'i gyw



Yr hornero

 Nyth fel cragen malwen

Roedd sawl math o durturod yn cerdded y strydoedd yn chwilio am hadau, yn cynnwys y durtur picui *(Columbina picui)* fechan sydd ond rhwng maint deryn to (oedd, mi oedd rhai o'r rheiny yma!) a bronfraith.

Ger yr afon roedd aderyn trawiadol arall, sef y cisgadî mawr *(Pitangus sulphuratus)* neu y 'deryn bol melyn' fel y'i gelwir gan y Gwladfawyr. Roedd hwn yn gwrthod yn lân a gadael imi ddod yn ddigon agos i gael llun efo'm camera bach. Bum yn trio a thrio am dros dri mis cyn llwyddo yn y diwedd ger y llyn ynghanol dinas Trelew lle'r oedd, mae'n amlwg, wedi arfer yn well efo pobl.

 Y deryn bol melyn, Trelew

Roedd yr afon ei hun yn eitha llwytaidd, yn llawn gwaddodion fel na ellid gweld yn fwy na ryw droedfedd neu ddwy i'w dyfnder. Prin iawn iawn oedd adar y dŵr a chwiaid arni, ond er hynny mae'n rhaid bod pysgod yn llechu yma am imi weld dyfrgi yn dod ohonni.  Dyfrgi afon Patagonia *(Lontra provocax)* oedd hwn, i'w wahaniaethu oddiar yr un bolwyn *(L felina)* geir ar yr arfordir.


Dyfrgi afon yn yr Afon Camwy yn Y Gaiman

**Y Paith**

Ddau canllath i fyny'r stryd o Dŷ Camwy roedd y paith yn cychwyn, a bron bob bore tra bod gweddill y teulu yn yr ysgol roeddwn yn cael cyfle i grwydro. Crwydro bryniau isel y paith sydd â'i bridd llwydwyn calchog wedi ei orchuddio â cherrig mân crynion. Cafodd y rhain, sydd a'u maint rhwng ŵy dryw a ŵy iâr ac yn rhyfeddol o amrywiol a lliwgar eu treiglo yma o cyn belled a'r Andes gan rewlifoedd ac afonydd y gorffennol. Fe ddeuthum â bagiad ohonynt adre, i Gymdeithas Cymry Ariannin fedru eu gwerthu ar eu stondin yn Steddfod Tregaron, ac mae'n dda gen i ddweud iddynt wneud elw reit ddel ohonynt.

Prin y gwelais greaduriaid ar y paith yng nghyffiniau'r Gaiman am mai yn y nos y daw llawer ohonynt allan. Roedd tyllau dulog yma ag acw. Dyma anifail bychan bywiog a chyflym fedr dyllu i'r ddaear a chau ceg y twll ar ei ôl o fewn chydig eiliadau. Roeddwn yn lwcus i gael llun o ddulog bach *(Zaedyus pichiy)* cyn iddo garlamu o'r golwg i'r llwyni. Cefais stori gan Ifon Owen, fferm Dedwyddfa, yn ardal Drofa Dulog, am ddulog yn dwyn wyau'r ieir. Bydd pobl yn arfer codi bocsus nythu'r ieir o leia medr o'r llawr, allan o gyrraedd y lleidr bach. Felly meddyliwch am siom Ifon un bora o weld bod dulog wedi tyrchu anferth o dwll o flaen un bocs a chodi tomen o bridd oedd yn ddigon uchel iddo sefyll arni i gyrraedd y nyth!


Dulog bach

Rhyfedd oedd gweld ambell sgwarnog Ewropeaidd. Fe gyflwynwyd y rhain i ogledd yr Ariannin yn 1888 ac maent wedi ymledu ers hynny ac yn bla yn rhai ardaloedd. Eu pechod yw eu bod yn cystadlu â'r defaid sy'n crwydro'r paith i chwilio am y tuswau prin o wair sy'n tyfu yma ag acw rhwng y llwyni. Llwyni isel caled yw y rhain, â'r mwyafrif un ai yn chwerw neu yn bigog. Er hynny mae amryw ohonynt yn ddefnyddiol mewn gwahanol ffyrdd, fel y dysgodd y Cymry oddiar y brodorion – y Tehuelche – yn nyddiau cynnar y Wladfa.

Mae'n werth nodi y bu'r berthynas rhwng y Cymry a'r Tehuelche yn dda iawn, yn dra gwahanol i'r erledigaeth ddioddefodd y brodorion dan law'r Sbaenwyr, ac yn arbenig y gwynion yn yr Unol Daleithiau. Ystyriai'r brodorion, fyddai'n treulio'r haf yn yr Andes a dod i lawr i Ddyffryn Camwy a'r arfordir dros y gaeaf, bod y Cymru yn eu trin yn dêg. O ganlyniad pan fu bron i'r Wladychfa Gymreig fethu yn 1867 aeth chwech o benaethiaid y Tehuelche efo Lewis Jones, un o'r sylfaenwyr, i Buenos Aires i bledio achos y Cymry gan lwyddo i gael cymorth ychwanegol iddynt gan y llywodraeth.

Dyma rai llwyni defnyddiol:



Y Jarilla (ynganiad: *charisha*) at ladd poen



Y celyn bach. Mabwysiadwyd yr enw Cymraeg i'r Sbaeneg ar ffurf 'columbai'. Mae'n dda at annwyd a'r ffliw



Y tomillo (ynganiad: *tomisho*) at ddolur gwddw ac yn berlysieuyn i roi blas ar gig



Y botwm aur, y sug gwyn yn wrthfiotig effeithiol

Heblaw am gantor y paith *(Mimus patagonicus)*, sy'n fersiwn llai na'r un yn y dref, ni chefais fawr o hwyl yn tynnu lluniau adar ar y paith. Yr adeg hon o'r flwyddyn, sy'n cyfateb i'n hydref ni, heidiau cymysg o abb (adar bach brown) oedd yna, a rheiny'n symyd yn gyson ac yn cadw'n isel ymysg y llwyni a gwrthod yn lân a gadael imi ddod yn ddigon agos i gael lluniau call.

**Llawr y dyffryn**

Dyma dir a drowyd o anialdir sych i ffermdir ffrwythlon gan y gwladfawyr cynnar. Dyfrio oedd yr allwedd i lwyddiant ac roedd yr ymdrech i ennill ac arloesi'r tir yn ddim llai nac arwrol, ac yn fwy fyth o ystyried nad oedd gan y Cymry o fryniau gleision a glawog eu mamwlad unrhyw brofiad o drin tir oedd mor sych ac anial. Dywedodd gŵr o Borth Madryn wrthyf mai dim ond y Cymry, yr Albanwyr a'r Basgiaid oedd â digon o ddycnwch i lwyddo yn y fath le. Pobl y mynydd-dir i gyd sylwch.

Dyfrio oedd yr allwedd i lwyddiant amaethu yn Nyffryn Camwy ac mae'r camlesi a'r ffosydd agorwyd i'r diben hwnnw yn dal ar waith hyd heddiw. Roedd yn ddifyr gweld, pan fyddai llain o dir yn cael ei

ddyfrio y byddai ugeiniau lawer o'r caracara tsimango *(Milvago chimango)* yn dod i chwilio am sboncod gwair ayyb fyddai'n dianc rhag y dŵr. Mae'r tsimango yn gyffredin yn y dref yn hela adar to ac yn gwneud gwaith da o waredu celanedd oddiar y tir. Os bydd dafad wedi marw bydd haid o'r rhain yn ei llnau at yr asgwrn mewn fawr o dro gan gadw'r tir yn iach a glân, nid fel yng Nghymru lle mae'n orfodol i ffermwyr waredu'r burgyn.



Tir yn cael ei ddyfrio o un o'r ffosydd




Tsimangos yn hela wrth i'r dŵr ymledu

Planhigyn oedd i'w weld yma ag acw yn enwedig ar ochrau ffyrdd ac ochrau ffosydd oedd yr enwog blanhigyn Owain C, neu'r wansi. Fe'i cyflwynwyd i'r Wladfa o Awstralia ar ddechrau'r 20fed ganrif gan Owain C Jones, ac fe ymledodd a dod yn chwyn. Mabwysiadwyd yr enw wansi gan y Sbaenwyr, yn seiliedig ar yr enw Cymraeg. Roedd ambell glwstwr ohonno ar lawr y dyffryn yng nghyffiniau'r Gaiman, ond fedrwn i ddim gweld ei fod yn broblem chwaith.

 Yr wansi

Un o’r adar difyrraf welais ar lawr y dyffryn oedd y ddylluan dyrchol *(Athene cunicularis)* sydd yn un fechan, debyg iawn i’n dylluan fach ni. Roedd pâr ohonynt yn sefyll ger eu twll – hen dwll dulog, gyda’u cri rhybudd “wit” yn diasbedain, a’u pennau yn bobian i fyny ac i lawr ac o ochr i ochr. Roeddent yn rêl cymeriadau.

 Tylluan dyrchol

Un arall oedd yr ehedydd maes cynffon hir *(Saturnella loyca)*, neu y ‘Robin goch’ i’r Gwladfawyr. Roedd hwn un ai yn pigo hadau oddiar y llawr neu yn sefyll ar ben llwyn yn trydar. Mae yn un o adar nodweddiadol y paith ac yn gyffredin yn yr Andes yn ogystal.

 Y Robin goch

**Yr arfordir**

Roeddem yn lwcus iawn i gael sawl trip i'r arfordir gyda chyfeillion oedd yn awyddus i'n cyflwyno i gyfoeth bywyd gwyllt y glannau. Aethom yng nghwmni Hector MacDonald a'i deulu i weld y morlewod yn gorffwys ar y tywod yn Playa del Union yng ngheg yr Afon Camwy. Enw'r traeth gerllaw yw Playa Galesa, neu Draeth y Cymry lle y deuai cannoedd o deuluoedd Cymraeg o bob rhan o'r Dyffryn ar un adeg ar eu trip Ysgol Sul blynyddol. Byddent yn campio yma mewn pebyll am wythnos gyfan. Mae'n rhaid bod hwyl i'w gael!



Cadw draw! - morlewas, yn amddiffynnol o'r rhai bach

Diolch hefyd i Ifon Owen am daith hyfryd i lan y môr ger Isla la Escondida ac i fyny'r dyffryn i Dir Halen. Bu iddi hi a Mariel Bonavia roi benthyg llyfrau adaryddol hynod ddefnyddiol imi. Mariel yn ffotograffydd bywyd gwyllt o fri – fe welwch amryw o'i lluniau adar ar wefan Llên Natur erbyn hyn.

Cefais lun ar un o'r teithiau o'r rhea bach *(Rhea pennata)*, neu'r 'estrys' i'r Gwladfawyr. Yn nyddiau cynnar y Wladfa byddai'r Cymry yn masnachu bara gyda'r Tehuelche am blu estrys. Roedd y plu yn ffasiynnol iawn mewn hetiau merched yn y dyddiau hynny ac fe'u hallforid i Ewrop a gogledd America lle ceid prisiau da amdanynt.




Rhea bach – sylwch pa mor fychan ydynt wrth ymyl y defaid Merino

Diwrnod da arall oedd mynd i Punto Tombo efo'r teulu Kennedy at y nythfa bengwiniaid enfawr yno. Roedd yn dod at ddiwedd y tymor nythu, y rhienni wedi gadael am y môr a'r cywion bellach yn gorffen bwrw eu manblu cyn eu dilyn. Mae tua hanner miliwn o bengwiniaid Magellan yn nythu yma a bu'r ardal yn warchodfa bwysig ers y 1970au, sydd yn dennu llawer o ymwelwyr.

Yn anterth y tymor, pan fydd degau o filoedd o oedolion yn tramwyo rhwng y môr a'u nythod i ddod a bwyd i'w cywion ceir sawl traffordd bengwiniaid brysur. Y rheol yw mai y pengwiniaid gaiff yr hawl tramwy bob tro, ac i alluogi pobl fynd drwy'r nythfa adeiladwyd nifer o bontydd troed ryw 4-5 troedfedd dros y traffyrdd. Mae hyn yn gweithio yn eithriadol o dda a phan oeddem ni yno, a hithau'n ddiwrnod poeth, roedd y pontydd yn gysgod da i griw o gywion rhag gwres yr haul.



Cywion yn cysgodi rhag yr haul dan un o'r pontydd troed




Hwn wedi bwrw'i fanblu ac yn barod i fynd i'r môr

Wyddoch chi mai enw sy'n tarddu o'r Gymraeg yw pengwin? Roeddwn wrth fy modd yn cael cadarnhad o hynny yng nghanolfan ddehongli'r warchodfa. Roedd llyfr Sbaeneg o'r 19eg ganrif yno yn dangos llun o'r pengwin gwreiddiol – y carfil mawr neu'r Gran Alca yn Sbaeneg – gyda'r clwt gwyn

ar ei ben roddodd iddo ei enw ‘pen gwyn’. Roedd hwn yn dderyn mawr talsyth na allai hedfan am fod ei adenydd yn rhy fach, tebyg iawn i bengwiniaid y de, ac am fod hynny yn ei wneud yn rhy hawdd i forwyr llwglyd ei ddal aeth i ddifodiant llwyr yn yr 1850au.

Yn y gyfrol, dywedir mai *los navegantes ingleses* roddodd yr enw i’r *pengüinos* deheuol. A phwy oedd y rheinny? Neb llai na Francis Drake ar ei daith rownd y byd, pan ymddangosodd yr enw pengwin am y tro cyntaf erioed yn log ei long, y Golden Hind ar Awst 20fed, 1578, lle cofnodwyd: *‘… infinite were the Numbers of the foule, the Welchmen name pengwin.’*

Er bod Magellan wedi bod y ffordd hon ddeugain mlynedd ynghynt (enwyd Culfor Magellan ar ei ôl) ni roddodd enw i’r adar hyn. I wneud i fyny am hynny enwyd y rhywogaeth o bengwiniaid sy’n nythu ym Mhatagonia yn bengwin Magellan *(Spheniscus magellanicus)* ar ei ôl.



¿POR QUÉ
— SE LLAMAN —
PINGÜINOS?

Por su parecido con el GRAN ALCA, ave no voladora ya extinguida del Hemisferio Norte, a la que los navegantes ingleses conocían como pengüins, por el color blanco y negro de su cabeza.

Cuando en el Siglo XVI los expedicionarios observaron aves similares en el Hemisferio Sur también las llamaron pengüins o pingüinos, aunque no estaban emparentadas.

Llun o’r gyfrol (drwy wydr)

Difyr meddwl mai yr enw pengwin yw y gair o darddiad Cymraeg lletaf ei ddosbarthiad drwy’r byd am i gymaint o ieithoedd Ewropeaidd a rhannau eraill o’r byd ei fabwysiadu.

Taith ddifyr arall, eto drwy garedigrwydd y teulu Kennedy, oedd i Benrhyn Valdez ger Porth Madryn i weld y morfilod. Morfilod balîn y de *(Eubalaena australis)* oedd y rhain ac am fod bae eang y Guelfo Novo yn grwn ac yn fas, gyda cheg gul iddo mae’n le eithriadol o gysgodol, sy’n ddeniadol iawn i’r morfilod ddod i gydmaru a geni eu rhai bychain. Oherwydd ei bwysigrwydd i’r cewri’r dyfnfor hyn dynodwyd y ceufor yn safle dreftadaeth y byd gan UNESCO yn 1999.

Roeddem ni yno yn gynnar yn y tymor i weld pennau yn brigo i’r wyneb, chwistrell ddŵr eu hanadl, esgyll ac ambell gynffon fawr rhai ohonynt yn chwifio cyn plymio wrth iddynt ddangos eu hunnain i’w darpar gymar, Saith o forfilod welsom ni y diwrnod hwnnw ddiwedd Mai ond gellir disgwyl ryw 30-40 erbyn mis Gorffennaf.



Morfil yn brigo a chwistrellu

Tra ein bod yno, roedd yn dda cael lluniau gweddol agos o'r gwanacos, sydd mor nodweddiadol o beithdir Patagonia. Roeddem wedi gweld amryw ohonynt o'r blaen wrth groesi'r paith, ond yn y pellter fel arfer ac yn carlamu ymaith a neidio dros ffensus fel na buasent yn bod. Ond yma, yng ngwarchodfa fawr Penrhyn Valdez, roeddent yn llawer llai ofnus ac yn fodlon inni dynnu lluniau ohonynt wrth ochr y ffordd. Roeddent fel petae'n gwybod yn iawn fod ganddynt noddfa ac yn saff rhag helwyr yn y warchodfa.



Haid o wanacos ar ochr y ffordd ym Mhenrhyn Valdez

Tuag at ddiwedd ein cyfnod yn y Wladfa cawsom benwythnos estynedig yng Nghwm Hyfryd yn yr Andes. Diolch i Bili a Gladys Hughes am fynd a ni y 400 milltir i Drevelin ar draws eangderau anhygoel y paith a thrwy'r ceunentydd tywodfaen gyda'u haenau lliwgar dorrwyd gan yr Afon Camwy. Un o'r uchafbwyntiau oedd Dyffryn yr Allorau, sydd yn geunant llydan gyda tua dwsin o golofnau mawrion talsyth, rai cannoedd o droedfeddi o uchder, yn codi'n syth o'r ddaear. Anhygoel.

Pennau gwynion yr Andes yn y pellter, ond taith o rai oriau eto cyn cyrraedd. Torri'r siwrnai yn Gwyndy, estancia ar yn paith yng ngofal Vernon, brawd Bili, ac wrth ddod oddiyno gweld dau dderyn

mawr yn cylchdroi yn uchel. Ac wir i chi dau gondor oedden nhw, adar sydd wedi cynnyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd oherwydd cynllun gwarchod llwyddiannus.



Yn bell ac yn uchel, ond dyma un o'r ddau gondor welwyd


Croeso mawr yn Nhrevelin gan Alwen Green. Roeddwn yn nabod ei thad, Fred Green, o'r cyfnod pan ddaeth sawl gwaith i Gymru yn y 1970au-80au pryd y bu fy chwaer Marian o gymorth iddo gyhoeddi ei atgofion byrlymus am ei fywyd yn y Wladfa. Chwiliwch am 'Pethau Patagonia' a gyhoeddwyd yn 1984, gyda ailargraffiad yn 2015. Dwi'n falch o ddweud imi berswadio Fred i gynnwys penod ddifyr ar fywyd gwyllt y Wladfa yn y gyfrol.

Taith hynod ddifyr yng nghwmni Gwion Elis-Williams ar y dydd Sul. Braidd yn rhy niwlog i weld gogoniant yr Andes ond cafwyd lluniau amryw o adar, yn cynnwys un oedd yn uchel ar fy rhestr i'w gweld, sef y caracara mawr *(Caracara plancus)*. Mae hwn, o ran ei faint, ryw hanner ffordd rhwng bwncath ag eryr, a'i arfer yw rhodio'n dalsyth i chwilio am sboncod gwair. Roeddwn wedi gweld un ohonynt ar ffermdir yn Nyffryn Camwy ond roedd hwnnw braidd yn rhy bell i gael llun. Yma, roedd yn sefyll ar bostyn wrth ochr y ffordd, ond yn y niwl!



Caracara mawr yn y niwl

Mater o lwc yw cyflwr y tywydd fel y gwyddwn ni yng Nghymru yn iawn ond chwarae teg fe gliriodd y niwl erbyn gyda'r nos i roi golygfa wych inni o un o fynyddoedd harddaf ac uchaf y rhan hon o'r Andes, sef Gorsedd y Cwmwl. Roedd ei enw yn ddigon trawiadol ond roedd ei weld yn ei ogoniant yn wefreiddiol.



Gorsedd y Cwmwl wedi ymddangos o’r niwl